**EITEM AR Y AGENDA: 10**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**18fed Rhagfyr 2006**

## DIRPRWYO AWDURDOD I GYMERADWYO'R LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL 2005/06

**Adroddiad gan Ken Finch,
Trysorydd i'r Awdurdod**

## Penderfyniad a geisir

**1.** I geisio i'r Awdurdod ddirprwyo ei bwerau mewn perthynas â derbyn y Llythyr Archwilio Blynyddol 2005/06 i'r Panel Gweithredol.

## Cefndir

**2.** Mae gofyn i Archwilydd Penodedig yr Awdurdod, Swyddfa Archwilio Cymru, gyhoeddi'r Llythyr Archwilio Blynyddol 2005/06 erbyn 31ain Rhagfyr 2006.

## Gwybodaeth

**3.** Bwriad gwreiddiol yr Archwilydd oedd i gyflwyno'r Llythyr Archwilio Blynyddol 2005/06 i'r aelodau yn y cyfarfod presennol. Ond, oherwydd yr amser cyfyngedig rhwng cyfarfodydd yr Archwilwyr gyda swyddogion i drafod cynnwys y Llythyr a'r dyddiad cau ar gyfer cynhyrchiad a dosbarthiad adroddiadau'r pwyllgor, teimlwyd na fyddai amser digonol ar gael er mwyn cwblhau'r Llythyr a'i gyflwyno i'r aelodau yn y cyfarfod hwn. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru mewn sefyllfa i gyhoeddi'r Llythyr ei hunan o flaen y dyddiad cau statudol o 31ain Rhagfyr.

**Gwybodaeth** *(parhad)*

**4.** Cyn gynted â sy'n ymarferol yn dilyn ei gyhoeddiad, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub dderbyn y Llythyr yn ffurfiol. Gan nad yw cyfarfod nesaf o'r Awdurdod wedi ei drefnu tan 19$^{eg}$ Mawrth 2007, canlyniad hyn fyddai peidio ag ystyried y Llythyr cyn hynny. Mae'n ddymunol i'r Llythyr gael ei dderbyn a'i ystyried cyn hynny.

**Cyngor**

**5.** Byddai'n fuddiol felly i'r Awdurdod, oni bai fod cyfarfod arbennig o'r Awdurdod Tân ac Achub yn cael ei alw yn y cyfamser am unrhyw bwrpas arall, i ddirprwyo ei bwerau mewn perthynas â derbyn y Llythyr Archwilio Blynyddol 2005/06 i'w Banel Gweithredol.

**Argymhelliad**

**6.** Fod yr Awdurdod yn dirprwyo ei bwerau mewn perthynas â derbyn y Llythyr Archwilio Blynyddol 2005/06 yn ffurfiol i'w Banel Gweithredol.